

TASG 1 : CREADIGOL / DIGIDOL

- a) Meddyliwch am un achlysur arbennig lle y bu i chi ganu'r anthem neu glywed yr anthem yn cael ei chanu.
- b) Mewn parau, disgrifiwch yr achlysur hwnnw i'ch partner.
- c) Yna, ewch ati fel dosbarth i recordio disgrifiadau pawb er mwyn creu fideo byr, yn cynnwys clipiau sain a lluniau.

TASG 2 : DADANSODDI / TRAFOD

- a) Pa ddwy linell o'r gerdd y byddech chi'n eu dewis i bawb yng Nghymru orfod eu dysgu nhw ar eu cof, a pham?
- b) Pa ddwy linell o'r gerdd y byddech chi'n eu torri allan o'r gerdd, a pham?

TASG 3 : YMCHWILIO

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Ymchwiliwch i hanes Evan a James James, ac i'r modd y daeth 'Hen Wlad fy Nhadau' yn anthem genedlaethol Cymru.

Gwnewch restr o ddeg ffaith bwysig am yr anthem a'u cyfansoddwyr.

TASG 4 : CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Ysgrifennwch fersiwn gyfoes o'r anthem genedlaethol, gan geisio dilyn patrwm curiadau ac odlau y fersiwn wreiddiol. Mae croeso i chi lenwi'r bylchau yn y ffrâm ganlynol:

Mae hen wlad fy _____ yn _____ i mi,
Gwlad _____ a _____, _____ o fri,
Ei _____, _____ tra _____,
_____.

Gwlad, gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad,
_____,
O! bydded i'r _____ barhau.

TASG 5 : YSGRIFENNU

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dychmygwch fod Llywodraeth Cymru am gynnal refferendwm i weld a yw pobl Cymru am gael gwared ar yr anthem genedlaethol neu ei chadw.

Ysgrifennwch blog (250-300 gair) yn esbonio pa ffordd y byddwch chi'n pleidleisio, ac yn esbonio pam eich bod chi o blaid neu yn erbyn yr anthem bresennol.

Ceisiwch gyfeirio at esiamplau penodol o beth sy'n effeithiol neu'n aneffeithiol yn yr anthem, o ran yr hyn mae'n ei ddweud a'r modd y mae'n cael ei ddweud.

TASG 1 : GWAITH GRŴP

Mewn grwpiau gwnewch restr o bump cymhariaeth neu drosiad posib arall a fyddai'n addas i ddisgrifio tîm pêl-droed Cymru yn mynd i'r Ewros yn 2016. Ceisiwch gytuno ar ba un o'r pump sydd fwyaf addas.

TASG 2 : CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

- a) Dyluniwch fathodyn ac arwyddair newydd i dîm pêl-droed neu rygbi Cymru.
- b) Ysgrifennwch baragraff yn esbonio'r syniadau sydd y tu ôl i'r bathodyn a'r arwyddair newydd.

TASG 3 : YSGRIFENNU / PERFFORMIO

Dychmygwch mai chi yw hyfforddwr tîm pêl-droed neu rygbi Cymru.

Rydych yn sefyll yn yr ystafell newid cyn y gêm fawr yn erbyn Lloegr ac yn awyddus i ysbrydoli eich chwaraewyr cyn iddyn nhw fynd allan ar y cae.

Lluniwch a pherfformiwch araith angerddol (250-300 o eiriau) sy'n atgoffa'r chwaraewyr o bwysigrwydd gwladgarol y gêm.

TASG 4 : YSGRIFENNU

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Ysgrifennwch adroddiad papur newydd (300-400 o eiriau) ar gêm rhwng Cymru a Lloegr, gan geisio defnyddio cymaint o gymariaethau a throsiadau sy'n codi o fyd ymladd a rhyfela.

TASG 1 : DADANSODDI / PARAU

Mewn parau, esboniwch i'ch gilydd ystyron yr ymadroddion canlynol o'r gerdd:

- a) 'Roedd gwisgo jersi goch yn tanio
Ynddo genedl hen y Cymro'
- b) 'Roedd calonnau pawb yn curo
Yn llawenach o gael sgwrsio
Gydag o,'
- c) 'Mae mudandod ar y sgrin,
Nid yw o yno i ymdrin
Â'n bywydau'.

TASG 2 : DADANSODDI / TRAFOD

- a) Beth yw eich hoff bennill yn y gerdd? Pam?
- b) Beth yw eich cas bennill yn y gerdd? Pam?

TASG 3 : CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Tynnwch saith llun neu gartŵn sy'n cyfateb i'r disgrifiadau o Ray Gravell ymhob un o saith pennill cynta'r gerdd (h.y. un llun ar gyfer pob pennill). Cofiwch fod gan Grav ei hun wyneb eiconig a allai fod o ddefnydd yn y lluniau hyn.

TASG 4 : YMCHWILIO / YSGRIFENNU

- a) Ymchwiliwch i hanes Ray Gravell.
- b) Ysgrifennwch bortread ohono ar sail y gwaith ymchwil hwnnw ac ar sail yr hyn sy'n cael ei ddweud amdano yn y gerdd hon. (400 o eiriau)

TASG 1 : DADANSODDI / PARAU

Mewn parau, ceisiwch esbonio i'ch gilydd beth yw ystyr y gytgan:

'Maen nhw'n ein clywed dros y sir,
Maen nhw'n ein clywed dros y ffiniau,
Maen nhw'n ein clywed ni ym mhen draw'r byd
Yn gwneud y pethau bychain nawr.'

Holwch eich gilydd:

- Pwy yw'r 'nhw'?
- Beth maen nhw'n ei glywed?
- Pa bethau bychain sy'n cael eu gwneud?

TASG 2 : TRAFOD

- Beth ydych chi'n credu oedd ystyr geiriau olaf Dewi Sant: 'Gwnewch y pethau bychain'?
- Sut maen nhw'n berthnasol i ni yng Nghymru heddiw?

TASG 3 : CREADIGOL

Lluniwch boster sy'n annog eich cyd-ddisgyblion i wneud y pethau bychain a allai wneud gwahaniaeth o ran Cymreictod a defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol. Ceisiwch ganolbwyntio ar un peth bach penodol iawn neu ar gwpwl o bethau bychain penodol iawn.

TASG 4 : YSGRIFENNU

Ysgrifennwch lythyr at y pennaeth yn mynegi pryder bod y defnydd o'r Gymraeg yn lleihau o fewn yr ysgol. Yn ogystal â chwyno am y sefyllfa, ceisiwch roi awgrymiadau am ffyrdd ymarferol o wella'r sefyllfa. (350 o eiriau)

TASG 1 : DADANSODDI / PARAU

a) Mewn parau, dewch o hyd i'r geiriau, ymadroddion a llinellau sy'n awgrymu anobaith y bardd.

b) Wedyn edrychwch am y geiriau, ymadroddion a llinellau sy'n awgrymu gobaith.

TASG 2 : DADANSODDI / TRAFOD

A ydy'r bardd am i ni gredu bod Owain Glyndŵr yn dod yn ôl yn llythrennol?

Os nad yw'r bardd am i ni gredu hyn yn llythrennol, beth felly yw arwyddocâd Owain Glyndŵr yn y gerdd a beth yw ei arwyddocâd ef i ni'r Cymry?

TASG 3 : YMCHWILIO

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Ymchwiliwch i hanes gwrthryfel Owain Glyndŵr (1400-1415).

Cofnodwch ddeg ffaith bwysig i'ch helpu chi i gofio'r prif ddigwyddiadau.

TASG 4 : YSGRIFENNU

Dychmygwch eich bod yn un o filwyr byddin Owain Glyndŵr sydd wedi eu carcharu ar ôl y gwrthryfel.

Ysgrifennwch lythyr adref yn esbonio eich sefyllfa, yn rhoi peth o hanes yr ymladd a hanes Owain Glyndŵr ei hun, ac yn nodi beth yw eich gobeithion ar gyfer y dyfodol. (350 o eiriau)